

Cyfathrebu â Rhieni a 3^{ydd} Partïon

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am bob cyfathrebu â'r brifysgol, p'un a ydynt wedi cyrraedd 18 oed ai peidio. Mae hyn yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998 a Pholisi'r Brifysgol ar Warchod Data. Ni ellir rhyddhau gwybodaeth am fyfyrwr i rywun arall heb ganiatâd y myfyrwr a dylai staff sy'n cael ceisiadau gan rieni, teulu agos neu unrhyw 3^{ydd} parti arall gofio'r pwyntiau a ganlyn:

Ni all y brifysgol wneud y canlynol:

- Cadarnhau a yw rhywun yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor.
- Rhoi manylion cyfeiriad myfyrwr, presenoldeb, ym mhle mae'n gyffredinol neu ei les
- Trafod cynnydd academaidd myfyrwr, yn cynnwys dewisiadau modiwlau, amserlen, asesu, dyddiadau asesu neu farciau.
- Trafod materion yn ymwneud â record bersonol y myfyrwr; er enghraifft, talu ffioedd, materion disgyblaethol neu gwynion yr ymchwiler iddynt ar y pryd.
- Gwneud cwyn neu ddechrau apêl ar sail adroddiad gan 3^{ydd} parti: mae'n rhaid i fyfyrwyr wneud hyn eu hunain.

Gall y brifysgol wneud y canlynol:

- Rhoi gwybodaeth am bolisiau a gweithdrefnau'r brifysgol sydd ar gael i'r cyhoedd, neu gyfeirio ymholwyr atynt.
- Gwneud ymholiadau priodol os codir pryder difrifol ynghylch lles myfyrwr, ond ni fydd yn datgelu canlyniadau'r ymholiadau hynny.
- Trosglwyddo neges ynghylch sefyllfa ddifrifol i fyfyrwr, ond ni all gadarnhau a dderbyniwyd y neges honno.
- Rhyddhau gwybodaeth dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig y myfyrwr.

Mewn sefyllfaoedd eithriadol lle mae angen cyswllt ar frys bydd y brifysgol yn

- rhoi manylion cyswllt mewn argyfwng i'r awdurdod statudol perthnasol neu
- gysylltu â'r cyswllt argyfwng yn uniongyrchol

Caniatâd gan fyfyrwr i ryddhau gwybodaeth:

- Rhaid i'r caniatâd gael ei roi drwy lythyr neu e-bost o gyfrif e-bost prifysgol y myfyrwr
- Gellir rhoi caniatâd ar lafar mewn amgylchiadau eithriadol, ond dylid ategu hynny yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl

- Rhoddir caniatâd ar gyfer mater penodol yn unig a dim ond gwybodaeth yn ymwneud â'r mater hwnnw a gaiff ei rhyddhau
- Gellir rhoi caniatâd ehangach yn unig mewn sefyllfa lle mae gan fyfyrwr anghenion cefnogi cymhleth sy'n annhebygol o newid.
- Lle rhoddir caniatâd i ryddhau gwybodaeth, bydd y brifysgol yn hysbysu staff perthnasol. Am resymau cyfrinachedd, ni fydd hyn yn cynnwys yr holl staff y gall 3^{ydd} parti gysylltu â hwy, a gall hyn arwain at oedi mewn ymateb tra bo staff yn ceisio eglurhad.

Nodyn i staff y brifysgol

SYLWCH:

- a) Os yw partïon o'r tu allan yn pwyso'n drwm arnoch neu eich bod yn teimlo eich bod yn cael eich bwlio, eglurwch wrthynt bod rhaid i chi gadw at Ddeddf Diogelu Data 1998 a chyfeiriwch hwy at Gwenan Hine, Pennaeth Cydymffurfio.
- b) Mae canllawiau pellach ar warchod data ar gael gan y Tîm Polisi a Chydymffurfio Cyfreithiol. Cysylltwch â Lynne Hughes ar 2776 / l.hughes@bangor.ac.uk neu ewch i'w gwefan <https://www.bangor.ac.uk/planning/dataprotection/index.php.en> i weld y Polisi Gwarchod Data a pholisïau cysylltiedig.
- c) Gall y polisïau a gweithdrefnau a ganlyn hefyd fod yn ddefnyddiol: <https://www.bangor.ac.uk/planning/policy-register/documents/policy-procedures-under-18.pdf>